Busnes a Rhanbarthau - Gogledd Cymru
Grŵp yr Economi, Egni a Thrafnidiaeth

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Anfonwyd i: MonaOffshoreWindProject@planninginspectorate.gov.uk

07 Awst 2024

Annwyl Archwilwyr,

**Fferm Wynt Alltraeth Mona - Ymateb Llywodraeth Cymru**
**(Cyfeirnod Parti â Diddordeb: 20048195)**

Diolch am y cyfle i gymryd rhan ym mhroses archwilio fferm wynt alltraeth Mona. Mae'r ymateb hwn gan Lywodraeth Cymru yn cael ei wneud ar sail heb ragfarnu.

Mae Mona yn gyfle i fynd â Chymru yn nes at gyrraedd ei thargedau datgarboneiddio, ac o ganlyniad bydd yn cyfrannu at y targedau ynni adnewyddadwy sydd wedi'u gosod ar gyfer Cymru. Gan fod Cymru yn cynnal y seilwaith arwyddocaol hwn, mae rhaid sicrhau bod modd manteisio'n llawn arno hefyd. Mae'n cynnig manteision ynghyd â risgiau ledled y rhanbarth a Chymru.

Rydym yn cydnabod y gallai'r prosiect fod yn sbardun i sicrhau manteision gwaddol hirdymor i ogledd Cymru, ac yn wir i Gymru, Yr allwedd i sicrhau gwaddol o'r fath fydd camau gweithredu cydgysylltiedig a dulliau strategol gan y sector cyhoeddus a'r sector preifat, gan sicrhau bod y mesurau lliniaru yn amddiffyn pwrs cyhoeddus Cymru rhag costau ychwanegol.

Cred Llywodraeth Cymru y gall gefnogi'r fenter ar y cyd yn ogystal â'r holl ddatblygiadau arwyddocaol arfaethedig eraill ar draws rhanbarth gogledd Cymru er mwyn sicrhau'r manteision gorau posibl o'r holl becyn. Mae sicrhau ymgysylltiad effeithiol â'r prosiectau arwyddocaol yn hanfodol er mwyn i hyn ddigwydd. Mae Cymru yn ymwybodol o'i chyfraniad nid yn unig at gyrraedd ein targedau yma yng Nghymru, ond hefyd at gynorthwyo'r DU i sicrhau cyflenwad ynni diogel a dibynadwy. Fodd bynnag, wrth gynnal seilwaith arwyddocaol o'r fath, mae Cymru hefyd yn disgwyl bod cyfleoedd y gellir eu sicrhau yng Nghymru, yn cael eu lleoli yng Nghymru. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys defnyddio porthladdoedd, darparu sgiliau a darparu  cyfleoedd fel y gall cymunedau elwa ar y cyfleoedd hyn. Mae rhanbarth gogledd Cymru mewn sefyllfa dda i gefnogi'r gwaith o ddarparu cyfleoedd o'r fath, ac mae am sicrhau bod y prosiect hwn, a phob seilwaith arwyddocaol arall, yn gweithio

gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol i sicrhau manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau perthynas waith gadarn gyda'r fenter ar y cyd, y Gynghrair Ynni ar y Môr ac awdurdodau cynllunio lleol. Rydym yn deall bod rhai meysydd polisi wedi bod yn rhan o'r pynciau pwnc penodol eisoes. Mae'r ymateb hwn wedi'i lunio i ddarparu barn drawslywodraethol.

**Trosolwg**

Mae'r ymateb hwn wedi'i baratoi ar sail adborth gan sawl portffolio Gweinidogol oddi mewn i Lywodraeth Cymru. Mae sylwadau manwl eraill gan Cadw yn Llywodraeth Cymru wedi'u hatodi yn atodiad A.

Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i rym ym mis Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn amlinellu saith Nod ac Egwyddor Llesiant craidd i ddarparu fframwaith clir ar gyfer y llywodraeth a'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach er mwyn sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn elwa ar economi lewyrchus, amgylchedd iach a gwydn a chymunedau bywiog, cydlynol. Mae'r ymateb hwn yn ceisio ystyried y nodau llesiant hyn.

Nodir bod yna gyfeiriad at rifyn 11 o Bolisi Cynllunio Cymru yn y dogfennau tystiolaeth. Disodlwyd hwn gan Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12 ac mae angen eglurhad i sicrhau bod y prosiect yn cyd-fynd â'r polisi sydd wedi'i ddiweddaru, yn enwedig Pennod 6 sydd wedi'i diwygio.

O safbwynt polisi economaidd, mae'r Genhadaeth Economaidd (2023) yn cyflwyno pedwar maes blaenoriaeth Llywodraeth Cymru sy'n ceisio cyflawni'r canlyniadau uchelgeisiol - sef:

1. Pontio cyfiawn a ffyniant gwyrdd
2. Platfform i bobl ifanc, gwaith teg, sgiliau a llwyddiant
3. Partneriaethau cryfach ar gyfer rhanbarthau cryfach a'r economi bob dydd
4. Buddsoddi ar gyfer twf

Mae ein polisi cyffredinol ar leihau allyriadau carbon a chyflawni statws sero net erbyn 2050 wedi'i gofnodi yng Nghyllideb Garbon 2 Cymru Sero Net - dogfen a oedd yn cynrychioli cyfnod newydd yn ein taith ddatgarboneiddio a'n targed sero net. Mae'r Cynllun hwn yn amlinellu 123 o bolisïau a chynigion, ochr yn ochr ag ymrwymiadau a chamau gweithredu o bob cwr o Gymru.

**Cysondeb â blaenoriaethau cenedlaethol**

Mae Deddf yr Amgylchedd yn gweithio ochr yn ochr â Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol i ddarparu fframwaith deddfwriaethol cadarn er mwyn sicrhau ein bod yn cyflymu camau gweithredu mewn perthynas â Newid Hinsawdd.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob prosiect ynni adnewyddadwy newydd gynnwys elfen o berchnogaeth leol. Mae Llywodraeth Cymru yn annog Mona i wneud pob ymdrech i sicrhau bod y prosiect yn gallu bodloni'r disgwyliad hwn trwy

ymgysylltu â chymunedau lleol a sefydliadau ar lawr gwlad. Hefyd, byddem yn disgwyl i elfen buddion cymunedol y prosiect fod mor gyson â phosibl â rhaglenni presennol Llywodraeth Cymru er mwyn ceisio sicrhau'r budd mwyaf posibl o safbwynt canlyniadau allweddol megis trechu tlodi, datgarboneiddio, Cymraeg 2050 a sgiliau'r dyfodol.

Mae nifer o gynlluniau buddion cymunedol tebyg yn cael eu datblygu ledled Cymru ar hyn o bryd mewn perthynas â phrosiectau seilwaith mawr, ac rydym yn argymell y dylai bp/EnBW nodi, a mabwysiadu, ymarfer gorau. Yn ogystal, hoffem archwilio sut y gallai'r prosiect hwn sicrhau gwaddol parhaol i gymunedau Cymru trwy greu cronfa waddol ranbarthol. Fodd bynnag, deallwn y gallai rhai elfennau o'r buddion cymunedol fod y tu allan i'r broses gynllunio, gan mai dim ond lliniaru uniongyrchol a fydd yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses DCO. Byddai trafodaeth ranbarthol ar y mater hwn yn ddefnyddiol iawn er mwyn rhannu dysgu a phrofiad wrth symud ymlaen.

Byddai Llywodraeth Cymru yn annog trafodaethau i sicrhau bod dull gweithredu strategol yn cael ei ddefnyddio, a byddai'n cefnogi strategaeth Buddion Cymunedol yn y dyfodol. Byddai'n werthfawr i brosiect Mona fabwysiadu Pecyn Mesur Buddion Cymunedol Llywodraeth Cymru, gan sicrhau bod modd dangos y buddion a wireddwyd yn glir. Byddai swyddogion ar gael i ddarparu rhagor o wybodaeth a/neu hyfforddiant ar ddefnyddio'r pecyn.

Mae Sero Net Cymru yn gosod targed plannu coed o 43,000 hectar o goetir newydd erbyn 2030, a 180,000 hectar erbyn 2050, er mwyn bodloni'r 'llwybr cytbwys' a nodwyd gan Gomisiwn Newid Hinsawdd y DU. Bydd datblygu Coedwig Genedlaethol Cymru, sy'n un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, yn cynnwys ardaloedd newydd o goetir ac yn helpu i adfer a chynnal rhai o goetiroedd hynafol anadferadwy Cymru, gan ddarparu rhwydwaith o goetiroedd hygyrch gyda chyfranogiad cymunedol. Dylai'r dystiolaeth a gyflwynwyd nodi sut mae'r mater hwn wedi cael ei ystyried. Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i sicrhau bod y gwaith o blannu coed a gwrychoedd newydd yn cael ei gynllunio mewn ffordd sy'n briodol i'r safle a'r dirwedd, a'i fod yn ystyried elfennau sensitif eraill ar safleoedd, megis presenoldeb cynefinoedd a rhywogaethau.

Mae'r datblygiad ar y tir yn agos at ffiniau Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Mae gan Lywodraeth Cymru ddyhead i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Mae hyn yn amodol ar Cyfoeth Naturiol Cymru yn cwblhau'r broses ddynodi statudol, a bydd rhan o'r broses hon yn cynnwys archwilio ffiniau posibl unrhyw Barc newydd. Er bod Parciau Cenedlaethol ac AHNE yn cael eu gwarchod mewn ffordd debyg rhag datblygiadau mawr, mae'n bosibl na fydd ffin parc cenedlaethol newydd yn cyd-fynd â'r AHNE presennol (byddai'r dynodiad yn cael ei dynnu oddi arni). Mae'n bosibl y bydd gan y dynodiad oblygiadau yn y dyfodol ar gyfer y datblygiad ar y tir sy'n gysylltiedig â Mona.

Nid oes unrhyw adnodd metrig bioamrywiaeth ar gyfer asesu budd net yng Nghymru. Nid oes gennym bolisi sefydledig ar gyfer cyflawni neu asesu elw net morol. Fodd bynnag, byddai disgwyl i geisiadau fod wedi ystyried polisïau a nodir yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru megis gwarchod, adfer a/neu wella ecosystemau morol

(fel yn ENV01) fel rhan o'r datblygiad. Byddem wedi disgwyl i'r cyngor gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), fel ein Corff Cadwraeth Natur Statudol, gael ei ystyried fel rhan o'r broses ymgeisio.

Mae Canllawiau Gweithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru Llywodraeth Cymru yn darparu rhai enghreifftiau o adfer a gwella y gellid eu hystyried, ac maent yn cyfarwyddo defnyddwyr y cynllun morol i ymgysylltu â CNC am gyngor. Mae CNC wedi datblygu a chyhoeddi nodyn cyfarwyddyd, 'Egwyddorion GN 059 ar gyfer cefnogi gwaith adfer a gwella mewn cynnig datblygiad morol neu arfordirol' sy'n amlinellu'r dull o gynghori ar gynnwys elfennau adfer neu wella mewn cynnig datblygiad morol neu arfordirol fel rhan o'i gylch gwaith i ddarparu cyngor (statudol ac anstatudol) ar sut y gallai datblygiadau effeithio ar amgylchedd morol Cymru.

Rydym yn disgwyl i bob datblygiad yn nyfroedd Cymru roi sylw i Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys ENV01 (Ecosystemau Morol Gwydn) ac ENV02 (Ardaloedd Morol Gwarchodedig). Disgwylir hefyd y bydd datblygwyr yn ystyried cyfleoedd i sicrhau gwarchod, adfer a/neu wella ecosystemau morol (ENV01) yn yr amgylchedd morol fel rhan o'u cynnig, y tu hwnt i liniaru a/neu ddigolledu yn ôl yr angen.

**Tai**

Bydd effaith polisi tai'r gweithwyr ar y cymunedau lleol yn amrywio o gymuned i gymuned gan ddibynnu ar broffil y gweithwyr. Bydd yr effeithiau ar y Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg yn amrywio o un gymuned i'r llall hefyd. Rydym yn croesawu'r Asesiad o Effaith ar y Gymuned a'r Asesiad o Effaith Ieithyddol sydd wedi'u paratoi er mwyn nodi'r effeithiau posibl ar y Gymraeg. Bydd angen parhau i asesu'r effaith wrth i'r datblygiad fynd yn ei flaen, yn ogystal â'r angen i groesgyfeirio rhwng y strategaeth dai a'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg er mwyn nodi a chyflwyno mesurau lliniaru lle bo angen, a fydd yn lleihau unrhyw effeithiau negyddol ar yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg yn y cymunedau sy'n cael eu heffeithio ac yn lleihau pwysau ychwanegol ar y stoc dai mewn cymunedau.

**Sgiliau a'r gweithlu**

Bydd Llywodraeth Cymru, ynghyd â rhanddeiliaid allweddol megis Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru, Medr (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, a fydd yn gorff hyd braich newydd â chyfrifoldeb am ariannu a goruchwylio addysg ac ymchwil ôl-16 yng Nghymru o fis Awst 2024) ynghyd â sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch, yn gyfrifol am sicrhau mai pobl leol sydd yn y sefyllfa orau i gael cyflogaeth, sicrhau cyfleoedd gyrfa lleol, cyflogaeth sy'n talu'n deg ac economïau a chymunedau cynaliadwy bywiog. Er mwyn gwneud hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llawn i gefnogi'r datblygiadau ar gyfer y diwydiant gwynt ar y môr ac i weithio gyda'r diwydiant i ddeall pa gymorth sydd ei angen yng ngogledd Cymru a sut y gallwn gydweithio i sicrhau'r canlyniadau gorau.

Mae'r Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Amlinellol (Rhif Cyfeirnod: MOCNS-J3303-RPS-10160, Cyfeirnod Dogfen: J24) yn darparu sylfaen a fframwaith da i helpu i ddarparu cyfle i ymgysylltu a chydweithio â Llywodraeth Cymru a Phartneriaid – mae asesiad cychwynnol o'r gweithlu presennol a'r dadansoddiad o'r Bartneriaeth Sgiliau

Rhanbarthol - Cynllun Cyflogaeth GC i'w croesawu. Byddai rhagor o wybodaeth am y potensial i ehangu gweithgareddau presennol sy'n seiliedig ar sgiliau yn cael ei chroesawu, gan gynnwys manylion yn y Cynllun Cyflogaeth Sgiliau. Er enghraifft, a oes bwriad gweithio gyda Choleg Llandrillo i ehangu'r cyfleoedd a gynigir yn y coleg, ac a oes cyfle i gydweithio â datblygwyr Gwynt ar y Môr eraill i ystyried darpariaeth a gomisiynir ar y cyd o safbwynt cyrsiau a defnyddio cyfleusterau arbenigol. Mae'r prifysgolion yn y rhanbarth ym Mangor a Wrecsam eisoes yn darparu cyfleoedd rhagorol i gefnogi'r diwydiant, ac maent yn barod i weithio gyda'r diwydiant i ddatblygu'r cyfleoedd hyn.

Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, er enghraifft, wedi comisiynu adroddiadau ar Bartneriaeth Sgiliau Ynni Carbon Isel Gogledd Cymru. Byddai'n ddefnyddiol deall sut mae'r datblygwr wedi ymgysylltu â'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i ddylanwadu ar gynnwys J24. Hefyd, mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi comisiynu prosbectws ar gyfer busnesau a'r rhai sydd â diddordeb mewn sgiliau perthnasol. Unwaith eto, byddai'n ddefnyddiol deall y trafodaethau sydd wedi'u cynnal yn y rhanbarth ar y cyfleoedd sy'n bodoli eisoes a'r bylchau posibl y bydd angen eu hystyried.

Mae'r Amcanion amlinellol a'r wybodaeth am ymrwymiadau yn ddefnyddiol i ddarparu cynllun lefel uchel o gamau gweithredu a gweithgareddau arfaethedig. Bydd angen ystyried a yw'r rhain yn adlewyrchu angen neu'n cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol. Felly, credwn ei bod yn hanfodol bod y fenter ar y cyd yn gweithio'n agos gyda'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, Llywodraeth Cymru a darparwyr sgiliau lleol gan ddarparu dadansoddiad o anghenion cymunedol a chyfleoedd i weithio'n agos ar yr ymgysylltiad cymunedol cysylltiedig arfaethedig.

Yn ogystal:

- Rydym yn cydnabod yn glir botensial Mona i greu swyddi gwerth uchel a gwella sgiliau lleol fel bod pobl ifanc yn gallu parhau i fyw yn eu cymunedau lleol neu ddychwelyd iddynt. Felly, byddai'n ddefnyddiol cael mwy o dystiolaeth am eich gosodiad am y gyfran o'r gweithlu sy'n debygol o fod yn lleol.

- O ystyried maint y gweithlu sydd ei angen a'r effaith bosibl ar economi ehangach gogledd Cymru, mae angen rhagor o eglurhad ynglŷn â'r gofynion sgiliau a'r cynlluniau hyfforddi cysylltiedig. Mae Llywodraeth Cymru a'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda'r fenter ar y cyd a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu cyfleoedd yn y dyfodol.

- Byddai angen ystyried materion fel dadleoli sgiliau presennol, a'r gweithlu ategol sydd ei angen - faint o bobl fydd eu hangen a sut y bydd yr effeithiau hyn yn cael eu lliniaru/lleihau.

Rhagwelir y bydd 87 o unigolion yn cael eu hadleoli i'r ardal, ac unwaith y bydd rhagor o wybodaeth ar gael am union nifer y gweithwyr a fydd yn symud i'r ardal, bydd angen ystyried a fydd y prosiect yn effeithio ar nifer y plant sy'n mynychu ysgolion yn yr ardal, yn ogystal â'r iaith Gymraeg. Gallai hyn gael effaith ar dargedau

awdurdodau lleol yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn ogystal â rhoi mwy o bwysau ar ganolfannau trochi Cymraeg.

## Yr Iaith Gymraeg

Mae'r strategaeth Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg (2017), yn amlygu'r effeithiau posibl ar yr iaith Gymraeg o ganlyniad i ddatblygiadau strwythurol mawr. Mae ardal y datblygiad wedi'i lleoli mewn ardal o arwyddocâd ieithyddol ac felly mae'n hanfodol bod y datblygiad arfaethedig yn cyd-fynd â nodau Cymraeg 2050 a'i fod yn cefnogi cynaliadwyedd hirdymor yr iaith yn ei chadarnleoedd traddodiadol.

Mae angen tystiolaeth fanwl trwy gwblhau Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, felly rydym yn croesawu adroddiad yr Asesiad o Effaith ar y Gymuned a'r Asesiad o Effaith Ieithyddol, ac rydym yn argymell bod yr Asesiad Effaith yn cael ei asesu gan ymarferydd cynllunio ieithyddol profiadol er mwyn sicrhau bod yr effeithiau posibl ar ddatblygiad yr iaith yn cael eu deall yn llawn. Dylid adolygu'r Asesiad o Effaith ar y Gymuned a'r Asesiad o Effaith Ieithyddol yn rheolaidd a'u croesgyfeirio gydag asesiadau effaith a pholisïau perthnasol eraill.

Mae Comisiynydd y Gymraeg ar gael i ddarparu cyngor a chymorth, felly dylai fod yn rhanddeiliad pwysig. Mae grwpiau Cymraeg lleol fel y mentrau iaith ar gael i helpu i greu sylfaen dystiolaeth gadarn. Dylai'r ymgysylltiad hwn hwyluso dull mwy penodol a strategol o ymdrin ag unrhyw fesurau lliniaru a gyflwynir mewn perthynas â'r Gymraeg.

Mae allfudo pobl ifanc, yn enwedig siaradwyr Cymraeg, yn her i gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg. Byddai cynllunio gweithlu sy'n galluogi pobl ifanc i fod yn y sefyllfa orau gyda'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol yn flaenoriaeth i ddiogelu'r Gymraeg fel iaith gymunedol ffyniannus. Hefyd, bydd hyn yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n gadael yr ardal i chwilio am gyfleoedd gwaith y tu allan i'r rhanbarth.

Mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n eang yn y rhanbarth a hi yw'r brif iaith mewn sawl cymuned. O ganlyniad, mae'n angenrheidiol bod unrhyw gynlluniau budd cymunedol yn mynd ati i hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg.

## Trafnidiaeth

Mae angen hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy a chynnwys gwybodaeth am sut y bydd y gweithlu yn teithio mewn ffordd gynaliadwy, a gwybodaeth am gynllun a lleoliad y ddarpariaeth yn ogystal â symudiadau logistaidd yn ystod y gwaith adeiladu. Anogir y fenter ar y cyd i drafod cyfleoedd o'r fath gyda Trafnidiaeth Cymru ac awdurdodau lleol mewn perthynas â cherdded a beicio. Wrth ddarparu'r dystiolaeth mewn perthynas â chludo cydrannau ar gyfer y prosiect, byddai'n ddefnyddiol deall pa opsiynau cynaliadwy sydd wedi'u hystyried a sut y gallai'r rhain ein symud tuag at garbon sero net. Byddai gwybodaeth am roi ystyriaeth bosibl i gludo nwyddau ar y rheilffordd, er enghraifft, yn ddefnyddiol er mwyn lleihau'r effaith ar briffyrdd y rhanbarth.

Byddem yn croesawu'r cyfle i drafod unrhyw gyfle i osod dwythellau telathrebu ychwanegol mewn priffyrdd yn ystod y prosiect yn ogystal â deall anghenion TGCh BP/EnBW i fonitro effeithiau yn y dyfodol, gan gysylltu â'r seilwaith presennol yn yr ardal.

Hefyd, hoffem wneud yr ymgeisydd yn ymwybodol o argymhellion y Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS) i symud gwasanaethau sydd wedi'u cymeradwyo gan Gyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru. Bydd union leoliad y ganolfan yn cael ei benderfynu yn ddiweddarach, ond bydd y gwasanaeth yn cael ei symud o faes awyr Caernarfon i leoliad mwy canolog yn y Gogledd, wrth ymyl yr A55. Mae disgwyl i'r gwasanaeth newydd ddechrau yn 2026.

**Porthladdoedd a Chadwyni Cyflenwi**

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi awydd y fenter ar y cyd i sicrhau'r buddion mwyaf posibl i fusnesau yn y DU trwy'r dyhead i wario 60% o'u buddsoddiad yn y gadwyn gyflenwi leol (DU), a bydd yn rhaid cynnwys hyn mewn unrhyw gais am Gontract ar gyfer Gwahaniaeth. Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu unrhyw wybodaeth am y cyfleoedd hyn yn ystod y broses archwilio.

Byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl bod cyfran sylweddol o'r buddsoddiad hwn yn mynd i Gymru ac y bydd cwmnïau a nodir yn y sectorau Gweithgynhyrchu Uwch, TGCh, Adeiladu a Pheirianneg, yn cael cyfleoedd i gystadlu am gontractau oddi mewn i haenau amrywiol y prosiect. Ein nod yw creu gwaddol parhaol o fusnesau cymwys sy'n gallu bod yn rhan o'r gadwyn gyflenwi fyd-eang, gan allforio nwyddau a gwasanaethau.

Felly, rydym yn awyddus i weithio gyda'r fenter ar y cyd i nodi dulliau o wella'r gwerth economaidd a ragwelir i'r rhanbarth a'r manteision economaidd ehangach a allai ddeillio o'r farchnad allforio sylweddol sydd wedi'i nodi yn y ddogfen a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sef *Offshore Wind – Industrial Growth Plan*. Er bod croeso i'r amcangyfrifon presennol a nodwyd yn yr asesiad, gellid eu hystyried yn isel/cymedrol o ystyried gwerth cyffredinol yr amlen fuddsoddi trwy gydol oes y datblygiad. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod cyflwyno cyfleoedd o'r fath yn dibynnu ar seilwaith porthladdoedd hanfodol ac yn deall bod asesiad o'r porthladd(/oedd) y gellir ei ddefnyddio/eu defnyddio yn y datblygiad yn parhau i fynd rhagddo. Fodd bynnag, credwn y dylai Llywodraeth Cymru helpu i hwyluso cyfleusterau porthladd/datblygiadau cysylltiedig er mwyn darparu ar gyfer rhan fawr o anghenion y fenter ar y cyd (gan adlewyrchu'r dyheadau strategol a nodir isod).

Gyda'r nod o geisio gwella'r cyfle cyffredinol arfaethedig, bydd yn bwysig ymgysylltu'n gynnar a galluogi llif deallusrwydd ar sail y galw er mwyn helpu i sicrhau'r canlyniad hwn. Mae gan Lywodraeth Cymru y dulliau cymorth angenrheidiol sydd ar gael i gwmnïau a nodwyd er mwyn cynnig atebion pwrpasol a chonfensiynol i ddatblygu eu galluogrwydd a'u capasiti. Hefyd, rydym yn hapus i gefnogi a hwyluso'r cyfle i weithio'n agos gyda rhanbarthau trawsffiniol a Llywodraeth y DU er mwyn chwilio am gyfleoedd buddsoddi ehangach sy'n darparu buddion strategol gwirioneddol y gellid eu gwireddu mewn porthladdoedd a datblygiadau cysylltiedig. Bydd cydweithio ar y mater hwn yn flaenoriaeth bwysig wrth ddatblygu diwydiant Cymru ar gyfer y farchnad ynni adnewyddadwy.

Hefyd, byddai Llywodraeth Cymru, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a'r Gynghrair Ynni ar y Môr yn awyddus i weithio'n agos gyda'r fenter ar y cyd er mwyn darparu cymaint o gyfleoedd â phosibl ar gyfer cynnwys cyflenwyr lleol a rhanbarthol. Byddai hyn yn cynnwys gwaith datblygu clystyrau ar gyfer gwasanaethau lleol fel bwyd, a gwaith cynnal a chadw gwasanaethau tir/amaethyddol hanfodol ar lefel leol. Rydym yn cefnogi dull cydgysylltiedig bp/EnBW ac RWE o gynnal digwyddiad yn Llandudno ar gyfer cadwyni cyflenwi, ac yn credu bod angen cynnal digwyddiadau fel hyn yn rheolaidd er mwyn caniatáu i'r cadwyni cyflenwi ddeall a chymryd rhan lawn yn y gwaith o gyflwyno'r prosiectau gwynt ar y môr sylweddol hyn.

Er mwyn datblygu uchelgais y clwstwr, mae Llywodraeth Cymru ar y cyd â'r Gynghrair Ynni ar y Môr wedi mynd ati'n annibynnol i gomisiynu adroddiad a fydd yn dadansoddi llif datblygiadau ar y môr a chapasiti/galluogrwydd y gadwyn gyflenwi yng ngogledd Cymru. Cyflwynodd yr adroddiad nifer o argymhellion i helpu i wella cyd-destun y gadwyn gyflenwi yng ngogledd Cymru - gan helpu i gynyddu buddsoddiad, cynhyrchiant a chystadleurwydd, a fydd yn arwain at ddatblygiad economaidd cadarnhaol yn y rhanbarth. Edrychwn ymlaen at weithio'n agos gyda'r datblygwyr i fynd i'r afael â rhai o'r argymhellion allweddol, a'u gwireddu, gan ystyried sut y gallant gyflwyno clwstwr effeithiol.

Hefyd, mae'r adroddiad yn nodi cyfleoedd strategol allweddol a allai geisio darparu galluogrwydd uniongyrchol gwell ar gyfer y gadwyn gyflenwi, gallu Cynnal a Chadw, gan ddatblygu rhai o'r cryfderau sydd eisoes i'w gweld yn rhanbarth gogledd Cymru a thu hwnt. Credwn y gallai ymgysylltiad agos ddarparu buddion ar y cyd.

Mae'r elfennau hyn yn cefnogi datblygiad ein cadwyn gyflenwi fel blaenoriaeth allweddol wrth ddatblygu gwaddol parhaol i Lywodraeth Cymru, a bydd ymgysylltiad penodol â gwaith i nodi'r rhaglen weithgarwch, gan gynnwys llinellau amser a gofynion cwmnïau penodol, yn hanfodol. Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r fenter ar y cyd i lunio rhaglen gyflenwi ac ymgysylltu lawn drwy gydol prosiect Mona ac wrth ddatgomisiynu'r prosiect.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi porthladdoedd ledled Cymru.

Ar 10 Mawrth 2021 lansiodd Llywodraeth Cymru Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 a fydd yn siapio ein system drafnidiaeth yng Nghymru dros yr 20 mlynedd nesaf.

Mae'r Strategaeth yn cynnwys blaenoriaethau porthladdoedd a thrafnidiaeth forol Llywodraeth Cymru dros y pum mlynedd nesaf a fydd yn cynnwys:

- buddsoddi mewn prosiectau sy'n darparu seilwaith porthladdoedd mwy cynaliadwy ac sy'n cyfrannu at ddatgarboneiddio yn y sector.

- gweithio gyda phorthladdoedd yng Nghymru i nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu economaidd yn y dyfodol, megis ynni adnewyddadwy ar y môr a datblygiadau arloesol ym maes datgarboneiddio.

- mae'r manteision posibl o ffermydd gwynt arnofiol ar y môr (FLOW) a ffermydd gwynt sefydlog ar y môr (OW Sefydlog) yn sylweddol, gan gynnwys cynhyrchu ynni carbon isel, swyddi a gweithgarwch economaidd ehangach dros y ddau ddegawd nesaf a thu hwnt.

- Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i barhau i weithio gyda'r fenter ar y cyd er mwyn sicrhau bod porthladdoedd gogledd Cymru yn elwa ar y prosiect arfaethedig hwn, a bydd yn parhau i weithio gyda Mona i ddarparu cyfleoedd.

**Gwasanaethau Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus**

Mae'r ymarferiad cwmpasu wedi nodi rhai meysydd a allai gael eu heffeithio. Mae angen ystyried yr effeithiau ar wasanaethau iechyd lleol pan fydd tystiolaeth fwy penodol yn cael ei chyhoeddi, gan gynnwys unrhyw faterion diogelwch sydd angen eu hystyried ar gyfer aelodau'r cyhoedd sy'n byw'n agos at y safle pan fydd y grid yn cyrraedd y tir.

**Coetiroedd a Choed**

Mae rhagdybiaeth gref yn erbyn gwaredu coetir yn barhaol fel y nodir yn "Coetiroedd i Gymru, strategaeth 50 mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer coetiroedd a choed yng Nghymru". Hefyd, mae disgwyl y bydd coed yn cael eu plannu i wneud iawn am goed sydd wedi'u colli yn sgil datblygiad, fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (rhifyn 12). Mae coed unigol fel coed gwrychoedd neu goed hynafol/hynod yn nodweddion unigryw o'r dirwedd ac maent yn darparu safleoedd bridio, bwyd a chysgod ar gyfer amryw o rywogaethau.

Mae nifer o ddogfennau yn nodi presenoldeb coetiroedd, coed a grwpiau o goed, a gwrychoedd a fydd yn effeithio neu a allai gael eu heffeithio gan y datblygiad arfaethedig. Yn gyffredinol, bu ymdrech ymwybodol i osgoi effeithio ar goetir a choed hynafol neu warchodedig, ac mae'r ymdrech hon yn cael ei gwerthfawrogi. Dyma'r pwyntiau sy'n ymwneud â'r dogfennau mwyaf perthnasol:

<u>Arolwg Coed ac Asesiad Effaith Coedyddiaeth Rhan 1 (Cyf Dog 7.66 neu APP160)</u>
Mae hyn yn nodi ar dudalen 4 mewn ymateb i Coed Cadw:

- "*Ancient Woodland, veteran trees and their root protection areas (RPA) have been avoided by the direct impacts of the Onshore Cable Corridor and Onshore Substation".*

- *"The operation and maintenance of the Onshore Substation and Onshore Cable Corridor should not necessitate the removal of trees or encroachment on any tree RPAs."*

Fodd bynnag, mae paragraffau 1.9.3-1.9.5 yn nodi y *bydd* coed yn cael eu colli o ganlyniad i'r datblygiad hwn. Mae hyn yn codi cwestiynau am ddilysrwydd y datganiadau uchod.

Er bod colled o "lai na 55 o goed" yn cael ei nodi ym mharagraff 1.9.5,

- <u>Nid</u> yw'n nodi a yw unrhyw un o'r coed hyn yn goed hynafol neu hynod (nid yw'n glir a yw'r datganiad gwreiddiol i Coed Cadw yn berthnasol o hyd).

- <u>Nid oes</u> unrhyw gydnabyddiaeth bod rhai o'r coed a gollir yn rhan o goetir (W2) sy'n agos at ddatblygiad yr is-orsaf (gweler Atodiad C Rhan 8), neu'n rhan o unrhyw goetir arall.

- <u>Nid oes</u> cydnabyddiaeth bod Coetir W2 yn cysylltu dau safle coetir hynafol ar hyn o bryd (cynllun Coed a Gwrychoedd cyfeirnod B14 neu APP 019 – Taflen 11) ac y bydd y bwriad i waredu'r coed yn torri'r cysylltiad hwn mewn gwirionedd.

- <u>Nid oes</u> unrhyw ddatganiad am gyfanswm arwynebedd y coetir a fydd yn cael ei golli naill ai yn W2 nac ar gyfer cynnig cyffredinol y datblygiad, na chyfanswm y gwrychoedd a fydd yn cael eu gwaredu, boed yn wrychoedd safonol neu'n wrychoedd "pwysig".

- <u>Nid oes</u> unrhyw sôn/manylion eraill am yr effaith ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Calchfaen Llanddulas a Choed Castell Gwrych sydd wedi'i nodi ar t.4 o'r ddogfen.

Nid yw'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yr Atodiadau A, B neu C. Mae'r pwyntiau hyn yn ystyriaethau pwysig wrth asesu effaith y cynnig ar goed a choetir, ac mae angen mynd i'r afael â'u heffaith ac ystyried sut y gellid osgoi, lleihau neu liniaru eu heffaith.

Yn gyffredinol, mae'n ei gwneud yn anodd iawn asesu a fydd y cynigion i ailblannu/disodli gwrychoedd a choed yn y Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecolegol Amlinellol (Cyf Dogfen J22 neu APP 208) yn Nhabl 1.6 yn cymryd lle'r hyn sy'n cael ei ddileu, a ddylai fod cyn lleied â phosibl. Mae angen mynd i'r afael â'r mater hwn a'i esbonio yn glir.

Diweddarwyd Polisi Cynllunio Cymru 12 Pennod 6 ym mis Chwefror 2024. Mae'r polisi manylach hwn i ddiogelu pob coetir a choed yn cynnwys disgwyliad i blannu coed at ddibenion cydbwyso. Mae hefyd yn darparu rhagor o eglurder ar sicrhau budd net ar gyfer bioamrywiaeth trwy ddefnyddio proses fesul cam gan gynnwys yr angen i ystyried gwelliannau a rheoli hirdymor yn ystod pob cam. Roedd diogelu coed a choetiroedd yn cyd-fynd â hyn hefyd. Argymhellir bod angen sicrhau bod dogfennau manylach yn y dyfodol yn ymwneud â rheoli effaith y datblygiad ar goed/coetiroedd/gwrychoedd a bioamrywiaeth ehangach yn yr ardal yn cyd-fynd â'r dull gweithredu a nodir yn PPW 12.

<u>Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg Amlinellol (Cyf J22 neu APP208)</u>
Fel uchod, mae yna ddiffyg data tryloyw ar faint o goetir a gwrychoedd sy'n cael eu gwaredu mewn perthynas â'r hyn sydd i'w blannu/sefydlu. Mae angen ymdrin â'r mater hwn.

Croesewir y nod o sefydlu coed llydanddail a choetir brodorol i gymryd lle'r hyn sy'n cael ei golli. Dylai pob rhywogaeth o goed a ddewisir fod yn addas ar gyfer amodau'r

safle. Mae angen cynnal a chadw coed newydd am 12 mlynedd, gan reoli chwyn er mwyn lleihau cystadleuaeth a disodli coed marw. Mae hwn yn amod cynnal a chadw safonol sydd ynghlwm wrth gynlluniau grant creu coetir Llywodraeth Cymru.

Er nad yw wedi'i nodi eto, dylid sicrhau bod dwysedd plannu ar gyfer coetir newydd yn 2500 o blanhigion/ha a dylid disodli gwrychoedd neu goed unigol sy'n cael eu tynnu ar gymhareb o 3 choeden ifanc am bob coeden a dynnir. Bydd hyn yn sicrhau bod niferoedd digonol o goed yn aeddfedu er mwyn cynnal y nodwedd yn y dirwedd. Dylid lleihau gwaith paratoi'r tir ar gyfer plannu er mwyn sicrhau bod coed yn cael eu sefydlu ac osgoi colli carbon o'r pridd. Mae'r Cod Carbon Coetir yn darparu canllawiau ar y mater hwn.

Mae paragraff 1.8.2.10 yn datgan y byddai ardaloedd coetir mwy o ran maint yn cael eu diogelu gan ffensys da byw yn unig ac y byddai cysgodfeydd coed unigol yn cael eu cyfyngu i grwpiau llai o goed. Yn ogystal â da byw a cheirw, mae angen diogelu <u>pob</u> coeden ifanc sy'n cael ei phlannu yn erbyn cwningod a llygod y dŵr er mwyn eu sefydlu'n llwyddiannus. Mae angen defnyddio cysgodfeydd coed ar gyfer yr holl goed llydanddail sy'n cael eu plannu. Bydd hyn yn diogelu'r coed ac yn hwyluso gwaith rheoli chwyn dilynol yn y blynyddoedd i ddod. Bydd angen cynnal a chadw cysgodfeydd coed yn ddigonol er mwyn sicrhau eu bod yn aros yn eu lle a'u bod yn weithredol.

<u>Dogfen Datganiad Dull Coedyddiaeth Amlinellol (J26.18 neu APP 230)</u>
Gwerthfawrogir y bydd datganiad dull coedyddiaeth manwl yn cael ei ddatblygu yn nes ymlaen. Dyma ein sylwadau:

Ardaloedd Gwarchod Gwreiddiau (RPAs) - Caiff y rhain eu diffinio fel ardaloedd sy'n cael eu cyfrifo fel 12 x diamedr y goeden. Mae Tabl 1.1 yn nodi crynodeb o'r gwerthoedd, gan osod terfyn ar yr ardaloedd hyn mewn perthynas â choed mwy o ran maint ar 12m neu 1m o ddiamedr y goeden. Gall coed aeddfed sy'n hynafol iawn a choed hynod fod â diamedr mwy na hyn, a dylai maint yr RAP adlewyrchu hyn. Felly, dylid dileu'r terfyn ar yr RPA er mwyn adlewyrchu maint pob coeden sy'n cael ei heffeithio a gwybodaeth am sut mae'r gwreiddiau yn cael eu diogelu ar fannau gwahanol o'r gwreiddiau gan fod rhai mannau yn fwy sensitif nag eraill.

Rheoli llwch - Mae'r cynnig yn amlinellu y bydd pibell yn cael ei defnyddio i lanhau coed lle mae llwch wedi cronni ar ddail, sy'n ymddangos yn ddull gweithredu unigol. Ateb mwy ymarferol fyddai rheoli'r llwch ar y safle, gan ddefnyddio tanciau dŵr i leithio pridd moel a lleihau llwch. Mae'r dull hwn wedi cael ei ddefnyddio mewn chwareli glo, tywod a graean, yn ogystal â safleoedd adeiladu eraill. Nid yw'n glir pam nad yw'r dull hwn wedi cael ei gynnig yma, gan y byddai'n fuddiol i fathau eraill o lystyfiant sy'n cael eu heffeithio gan lwch, yn ogystal â choed.

Cywasgiad pridd ac awyru aer cywasgedig - Mae'r dull hwn o fynd i'r afael â chywasgiad pridd o amgylch gwreiddiau wedi cael ei dreialu mewn ardaloedd trefol gan arwain at lwyddiant cyfyngedig, yn enwedig os yw cywasgiad yn mynd yn ddyfnach i'r isbridd. Yr opsiwn gorau yw osgoi cywasgu gwreiddiau coed yn y lle cyntaf, gydag RPAs yn eithrio peiriannau a lle nad oes modd ei osgoi, cyfarpar gwasgedd isel, amodau gweithredu tywydd da.

Pwynt cyffredinol
APP 161 - Atodiad 6.6: Mae arolwg coed ac asesiad effaith coedyddiaeth Rhan 2 - Atodiad A – yn rhestru'r holl goed, coetiroedd, grwpiau o goed a gwrychoedd sy'n cael eu heffeithio gan y datblygiad. Mae'n bosibl bod rhywfaint o ddyblygu - mae tudalennau 15-19 yn edrych yn debyg iawn i dudalennau 20-31.

**Priddoedd a Thir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas**

1. Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC) – Asesiad a Chyngor Technegol.

Cwblhawyd arolwg maes Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC) o'r safle is-orsaf arfaethedig ac ardaloedd cynrychioliadol o dir amaethyddol ar hyd darnau o'r coridor ceblau arfaethedig. Cyflwynir y canfyddiadau yn y Datganiad Amgylcheddol Cyfrol 7, Atodiad 7.2, ac mae gwybodaeth hinsoddol gefndirol allweddol, daeareg a gwybodaeth am bridd wedi'i chyhoeddi ar wahân yn Atodiad 7.1

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â dilysiad desg o'r adroddiad ALC yn unol â'r 'Canllawiau a Meini Prawf Diwygiedig ar gyfer Graddio Ansawdd Tir Amaethyddol' (MAFF 1988) (y cyfeirir atynt fel 'y Canllawiau' isod).
Nid yw'r Adran yn gallu dilysu canfyddiadau'r adroddiad yn ei ffurf bresennol, ac mae'n gofyn i'r ymgeisydd a'r syrfëwr ALC ddarparu gwybodaeth ychwanegol i gyfiawnhau'r graddio.

Dyma'r materion sydd angen ymdrin â nhw:

i. Sychder - nid yw'n glir a yw sychder pridd wedi cael ei ystyried ar gyfer y safle, sy'n achos pryder oherwydd nifer o broffiliau bas a charegog a nodwyd. Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi cael ei darparu yn ymwneud â chyfrifiadau sychder sydd wedi'u cwblhau ac os ydynt yn cyfyngu. Dylid diwygio'r adroddiad i fynd i'r afael â'r mater hwn.

ii. Natur garegog – nid yw'r asesiad wedi rhannu'r ffracsiwn cerrig ym mhob arsylwad ar sail y terfynau maint sydd wedi'u disgrifio yn Nhabl 5 o'r Canllawiau (cerrig sy'n fwy na 2cm a charreg sy'n fwy na 6cm).

iii. Lliw pridd – ar gyfer y tyllau taradr, nid yw siartiau lliw pridd Munsell wedi cael eu defnyddio i ddisgrifio lliwiau pridd.

iv. Haenlinau Clai Glas a Haenau Athraidd Araf (SPL) – yn y gofrestr o dyllau taradr, mae'n anodd gweld presenoldeb haenlin o glai glas a/neu SPL. Dylid diwygio'r gofrestr o dyllau taradr a'r proffiliau pwll i fynd i'r afael â'r mater hwn a chynnwys y Dosbarth Gwlybaniaeth (WC) a bennir ar gyfer pob arsylwad. Hefyd ar gyfer SPL, nid yw'r adroddiad yn dangos mandylledd y pridd a arsylwyd.

v. Cofnod o dyllau taradr – nid yw'n glir beth yw'r ffactor cyfyngu ar gyfer graddio mewn nifer o broffiliau a archwiliwyd (e.e. dyfnder pridd, gwlybaniaeth ac ymarferoldeb, ac ati). Mae angen egluro hyn.

vi. Cyfyngiadau Safle ac Annibynnol – nid yw'r adroddiadau yn ystyried nifer o gyfyngiadau annibynnol, er enghraifft graddiannau, mircro-dirwedd a pherygl llifogydd amaethyddol.

vii. Nid yw'r rhesymau dros raddio wedi cael eu disgrifio'n glir.

viii. Ffotograffau – os ydynt ar gael, byddai'r adran yn croesawu ffotograffau o'r pyllau pridd a archwiliwyd.

Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu eglurhad a thrafodaeth ar y pwyntiau uchod cyn gynted â phosibl gan y syrfëwr a'r ymgeisydd. Wedyn, byddai swyddogion perthnasol o Lywodraeth Cymru yn adolygu'r adroddiad eto i'w ddilysu.

Yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, os nad yw arolwg yn cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru, dylai Gradd y Map Rhagfynegol gael ei derbyn gan yr awdurdod penderfynu fel yr wybodaeth orau sydd ar gael.

2. Dewis Safle (AS-016 – ES Cyfrol 1 Pennod 4 – Dewis Safle a Dewisiadau Amgen).

Croesewir y ffaith fod polisi BMV (PPW paragraff 3.58 a 3.59) a gwybodaeth am ansawdd tir amaethyddol (trwy'r Map ALC Rhagfynegol) wedi cael eu hystyried yn gynnar yn y broses o ddewis y safle, ar gyfer yr is-orsafoedd ac i fireinio'r llwybr ceblau ar y tir.

3. Defnydd Tir – (APP-070 – ES Cyfrol 3 – Pennod 7 – Defnydd Tir a Hamdden).

Mae'r ymgeisydd wedi ystyried gwybodaeth gyhoeddedig am ansawdd pridd a thir yn gynnar yn y broses asesu. Croesewir y ffaith fod effeithiau ar BMV a swyddogaethau a gwasanaethau pridd eraill yn cael eu hystyried, a bod yr ymgeisydd wedi cyflwyno Cynllun Rheoli Pridd Amlinellol (oSMP). Gweler sylwadau ychwanegol ar oSMP isod.

O dan Adran 7.4.1 mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y Nodyn Cyfarwyddyd Map Rhagfynegol hefyd yn ganllawiau perthnasol i'w hystyried ar gyfer yr asesiad.
O dan Dabl 7.11, nid yw'r ymgeisydd wedi rhestru arolygon maes ALC blaenorol yn yr asesiad bwrdd gwaith. Mae arolygon blaenorol wedi cael eu hystyried yn Ffig 1.2 o APP-0168 – ES Cyfrol 7, Atodiad 7.1.

Mae Llywodraeth Cymru yn anghytuno â'r meini prawf sensitifrwydd a nodwyd ar gyfer tir amaethyddol yn Nhabl 7.20. Mae'r Canllawiau IEMA (Persbectif Newydd ar Dir a Phridd mewn EIA - Chwefror 2022) yn nodi yn Adran 9, Tabl 2 fod pob BMV yn ystyried Cymru yn ardal sensitifrwydd 'Uchel Iawn' (h.y. ALC Gradd 1, 2 a 3a). Felly, credir y dylid adolygu'r asesiad ar gyfer effeithiau ar swyddogaethau tir amaethyddol a phridd yn unol ag Adran 9 o ganllawiau IEMA.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno ag adran 7.5.2.6 sy'n nodi y byddai effaith andwyol sylweddol ar BMV ddim ond yn digwydd wrth golli 20ha neu fwy. Trothwy'r ymgynghoriad gyda Llywodraeth Cymru yn unig yw hwn, ac mae angen ystyried unrhyw golledion BMV, fel adnodd cyfyngedig, yn unol â pharagraff 3.58 a 3.59 PPW.

4. Cynllun Rheoli Pridd Amlinellol.

Croesewir y ffaith fod Cynllun Rheoli Pridd amlinellol (oSMP) wedi cael ei baratoi a'i gyflwyno gan yr ymgeisydd.

Gwerthfawrogir y ffaith mai gwaith arolygu ALC ac asesiad o nodweddion ffisegol y pridd cychwynnol sydd wedi'u cwblhau ar gyfer ardaloedd cynrychioliadol o'r coridor ceblau hyd yn hyn. Croesewir y ffaith fod gwaith arolygu ALC pellach yn cael ei gynnig cyn y gwaith adeiladu er mwyn llywio'r SMP terfynol. Mae angen ymrwymiad cadarn gan yr ymgeisydd i ymgymryd â'r gwaith hwn.

Byddai'n dda pe bai'r oSMP yn cynnwys mwy o wybodaeth am y dulliau trin pridd sy'n cael eu cynnig ar gyfer tynnu, storio a gosod priddoedd. Credir mai Taflenni A i E o'r '*Good Practice Guide for Handling Soils in Mineral Workings'* (2021) gan y Sefydliad Chwarela (IoQ) yw'r mwyaf priodol ar gyfer osgoi problemau fel cywasgu pridd.

Nodir y bydd y ceblau ar y tir yn cael eu gosod mewn tywod wedi'i rwymo â sment. Nid yw'n glir pa ddefnydd fydd yn cael ei wneud o'r pridd dros ben a sut y bydd hyn yn cael ei ailddefnyddio mewn ffordd gynaliadwy. Byddai rhagor o wybodaeth yn ddefnyddiol.

**Cyfleoedd ariannu o brosesau caffael**

Yn ogystal â'r buddion cymunedol a nodir uchod, o safbwynt caffael, gallai prosiect Mona greu cyfleoedd sylweddol.

Er ei bod yn bosibl na fydd Rheoliadau'r UE yn berthnasol i'ch prosesau caffael, gellid mabwysiadu egwyddorion fframwaith Datganiad Polisi Caffael Cymru, gan gefnogi dyheadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phrosesau caffael.

**Y Grid yng Nghymru**

Lle bynnag y bo modd, mae Llywodraeth Cymru (Polisi Cynllunio Cymru, paragraff 5.7.9) yn credu y dylai llinellau pŵer newydd gael eu gosod o dan y ddaear. Fodd bynnag, cydnabyddir bod yn rhaid cael barn gytbwys yn erbyn costau a allai olygu bod prosiectau sy'n dderbyniol fel arall yn anhyfyw. Lle nad oes modd gosod llinellau o dan y ddaear, mae angen ymgysylltu'n rhagweithiol â chwmnïau ynni a'r cyhoedd er mwyn lliniaru effaith weledol unrhyw linellau trawsyrru newydd posibl.

**Hydrogen**

Hefyd, mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn deall sut y gallai'r prosiect hwn gyfrannu at gyfle ynni aml-fector ledled gogledd Cymru. Mae cryn drafod ar hydrogen ledled rhanbarth gogledd Cymru ar hyn o bryd, a byddai'n ddefnyddiol deall sut y gallai'r prosiect hwn gyfrannu at y cyfleoedd hyn.

## Economi Gylchol a Datgomisiynu

Nod y strategaeth Mwy nag Ailgylchu – Economi Gylchol Cymru yw parhau i ddefnyddio adnoddau cyhyd â phosibl a dod o hyd i ddefnydd newydd ar gyfer yr adnoddau hyn ar ddiwedd eu hoes ddefnyddiol gyntaf. Ac rydym yn disgwyl i gynhyrchwyr/datblygwyr leihau gwastraff ar ddiwedd oes gosodiad, gan gynnwys ailddefnyddio cymaint â phosibl, ac ailgylchu'r hyn na ellir ei atal na'i ailddefnyddio.

Byddem yn dymuno gweld bp/EnBW yn datblygu cynllun datgomisiynu o'r cychwyn cyntaf ac yn dilyn yr hierarchaeth wastraff. Cefnogir yr uchelgais hon gan bolisi cyffredinol Polisi Cynllunio Cymru. Mae'r polisi hwn yn pwysleisio'r angen i wneud dewisiadau cynaliadwy o safbwynt adnoddau a hyrwyddo egwyddorion economi gylchol wrth gynnig datblygiad. Dylid ystyried y potensial ar gyfer cynllunio prosesau gwastraff yn gynnar wrth lunio cynigion, a dylai gynnwys defnyddio deunyddiau a chynhyrchion y gellir eu dadadeiladu a'u hailddefnyddio, eu hadnewyddu, eu hailgynhyrchu neu eu dadelfennu a'u hailgylchu.

## Lliniaru Effaith

Er bod Llywodraeth Cymru yn deall cwmpas penodol y cais hwn, bydd yr effaith ar gymuned fach yn sylweddol, ac felly mae'n dymuno codi'r mater hwn fel pryder. Mae'r ardal hon, oherwydd nifer o brosiectau arwyddocaol, yn wynebu dull tameidiog o ymdrin â'r seilwaith grid a fydd yn cael effaith sylweddol i gyd efo’i gilydd. Codwyd y pryderon hyn yn ystod sesiynau cychwynnol y gwrandawiad archwilio.

Bydd effaith yr holl brosiectau hyn yn creu sawl is-orsaf ac yn dyblu maint un o orsafoedd trawsyrru'r grid cenedlaethol. Dim ond cynnal y seilwaith hwn y mae’r gymuned, a gellid dadlau nad yw'n elwa llawer ar y trydan a gynhyrchir na'i fan defnyddio. Mae'n ddealladwy nad yw datblygiad y Grid Cenedlaethol yn rhan o'r DCO hwn gan ei fod yn darparu ar gyfer mwy na'r prosiect hwn. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol deall effaith estyniad o'r fath er mwyn i gymunedau weld yr effaith lawn a sut y bydd gwaith lliniaru tirwedd yn amddiffyn y gymuned hon yn y dyfodol rhag y strwythurau sylweddol a'r sŵn posibl. Er budd y gymuned byddai'n ddefnyddiol pe bai holl ddatblygwyr y prosiect yn cynnig rhyw fath o gynllun i leihau effeithiau'r adeiladau hyn ar y gymuned fechan. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i drafodaeth ar 'fuddion cymunedol' sydd y tu allan i'r broses DCO. Gallai gwaith cynllunio strategol ar gyfer yr ardal hon fod yn ddefnyddiol. Gweler hefyd y sylwadau cysylltiedig am y grid.

Er mai dim ond y mesurau lliniaru sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r cais a fydd yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses hon, hoffai Llywodraeth Cymru gyfeirio at ei pholisi ar berchnogaeth leol. Wrth reswm, nid yw'r broses ar gyfer prydlesu safleoedd ar gyfer gwynt ar y môr yn golygu bod modd dilyn y canllawiau perchnogaeth gymunedol. Fodd bynnag, byddai rhywfaint o wybodaeth am sut y bydd y pecyn budd cymunedol yn cefnogi cymunedau lleol yn cael ei chroesawu. Mae Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol eraill yn y rhanbarthau yn barod i weithio gyda datblygwyr prosiectau ar faterion o'r fath.

**Effeithiau ac ystyriaethau cyfunol**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn llawn yr effeithiau y bydd y datblygiad hwn yn eu cael ar y cymunedau sy'n agos i'r safle lle bydd y ceblau yn dod i'r lan ac ar draws rhannau o'r arfordir, yn ogystal ag ar olygfeydd o'r mewndir.

Mae angen rhoi rhagor o ystyriaeth i sut y bydd effeithiau prosiect Mona yn cael eu rheoli yng nghyd-destun datblygiadau posibl eraill yn y rhanbarth. Byddai'n ddefnyddiol pe bai datblygwyr Mona ac Awel y Môr yn parhau i gydweithio ar lunio amserlen fanwl er mwyn sicrhau bod cymunedau'n ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd, ble a pham mae'n digwydd a phwy sy'n gyfrifol amdano. Dylid bwrw ymlaen ag unrhyw gyfleoedd i leihau'r effaith ar gymunedau lleol hyd yn oed os yw hynny'n golygu gwneud gwaith penodol mewn trefn nas bwriadwyd. Byddai'n ddefnyddiol deall sut mae prosiect Mona yn gweithio gydag Awel y Môr i leihau effeithiau ar gymunedau lleol. Rydym yn deall bod rhai trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal gydag RWE, prosiect Mares Connect a Thrawsyrru Trydan y Grid Cenedlaethol, ond yn anffodus nid yw'n ymddangos eu bod wedi arwain at ddull strategol mwy cyfannol ar gyfer yr ardal hon.

Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn rhan o'r Adolygiad o'r Rhwydwaith Trawsyrru ar y Môr ac roeddent wedi codi'r mater y byddai Awel y Môr yn disgyn y tu allan i gylch gwaith yr adolygiad ac y byddai angen cysylltiad â system drawsyrru Prydain ar o leiaf ddau brosiect arall yn yr ardal hon. Nodir bod hyn yn cyfyngu ar allu'r prosiect hwn i gydlynu cysylltiadau â'r grid. Fodd bynnag, byddai Llywodraeth Cymru yn dymuno sicrhau bod cyn lleied o amharu â phosibl ar gymunedau ac ar y tir. Mae ein hymrwymiad o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn am ddull hirdymor o wneud penderfyniadau.

Rydym yn ymwybodol bod yr ystyriaeth hon y tu hwnt i gylch gwaith y DCO hwn, ond byddai prosiectau seilwaith arwyddocaol o'r fath wedi cael eu hystyried mewn ffordd ddefnyddiol fel rhan o ddull gweithredu llawer mwy strategol. Mae angen i ni ystyried yr aflonyddwch a fydd yn deillio o gyflwyno’r prosiect hwn sydd â'r potensial i gynyddu gwrthwynebiad i waith yn yr ardal yn y dyfodol, ac o bosibl arafu prosiectau eraill sydd eu hangen i gyflenwi trydan glân. Felly, rydym o'r farn bod hwn yn gyfle i gynllunio ymlaen llaw er mwyn lleihau costau ac effaith datblygiadau yn y dyfodol.

Mae Sero Net Cymru yn arwain y gwaith o ystyried cyfleoedd i sicrhau bod gan awdurdodau cynllunio a CNC yr adnoddau i allu ystyried prosiectau mawr o'r fath a gallu cyflawni amodau. Mae'n bosibl na fydd yr adnoddau ar gael mewn rhai awdurdodau, felly byddai'n ddefnyddiol gwybod sut y gallai'r amserlen o fewn y DCO ystyried hyn er mwyn sicrhau bod cyllid ar gael i gynorthwyo'r awdurdodau i wneud y gwaith sydd ei angen fel bod prosiectau o'r fath yn gallu cael eu datblygu yn ôl yr angen. Byddai'r ymateb hwn i'r mater yn un tymor byr a thymor canolig.

**Casgliad**

Gellir darparu rhagor o wybodaeth fanylach ar wahân os oes angen ac mae swyddogion enwebedig o ardaloedd allweddol yn barod i gefnogi'r broses archwilio.

Derbyniwch hwn fel ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r archwiliad presennol o brosiect Mona.

Yn gywir

[redacted]

**Rhys Morris**
**Prif Swyddog Rhanbarthol, Gogledd, Canolbarth a Gorllewin Cymru / Chief Regional Officer, North, Mid and West Wales**
Grŵp yr Economi, Egni a Thrafnidiaeth / Economy, Energy and Transport Group
Llywodraeth Cymru / Welsh Government

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Sarn Mynach, Llandudno Junction, Conwy LL31 9RZ

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre 0300 0604400

**Atodiad A - Sylwadau penodol Cadw**

**Yr Amgylchedd Hanesyddol**

Mae Cadw, gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, wedi cael trafodaethau gyda datblygwyr y prosiect ac wedi cynhyrchu Datganiad Tir Cyffredin drafft.

Mae'r cais wedi'i ategu gan Ddatganiad Amgylcheddol a baratowyd gan RPS gyda phennod 5, ac mae'r atodiadau yn ystyried effaith y fferm wynt arfaethedig a'i chysylltiad ag is-orsaf ar y tir i'r de o Is-orsaf y Grid Cenedlaethol ym Modelwyddan.

**Henebion Cofrestredig a Safleoedd Archaeolegol Heb eu Dynodi**

<u>Ar y tir</u>

Ni fydd y datblygiad arfaethedig yn cael effaith uniongyrchol ar unrhyw henebion cofrestredig. Mae'r Datganiad Amgylcheddol wedi ystyried effaith y datblygiad arfaethedig ar leoliad yr holl henebion cofrestredig. Yn ystod y gwaith adeiladu ar gyfer y cysylltiad â'r is-orsaf, mae'r datganiad yn nodi'r posibilrwydd o effeithiau andwyol bach iawn, ond nid sylweddol, ar leoliadau henebion cofrestredig DE008 Gwersyll Pen-y-Corddyn; FL004 Castell Rhuddlan; a FL015 Twthill: Fodd bynnag, bydd yr effeithiau hyn yn rhai dros dro ac unwaith y bydd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau, ni fydd unrhyw effaith ar leoliadau'r henebion cofrestredig hyn. Rwy'n cytuno â'r asesiad hwn ac felly nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig oherwydd ei effaith ar leoliadau henebion cofrestredig.

Mae arolwg geoffisegol o'r rhan fwyaf o goridor cysylltiad y ceblau ar y tir â'r is-orsaf wedi'i gwblhau (820ha o'r llwybr coridor 841ha). Mae'r gwaith hwn wedi nodi dau anomaledd a ddiffiniwyd yn dda sy'n awgrymu bodolaeth clostiroedd ffos - y naill wedi'i leoli ger Betws Lodge Wood yn rhan ogleddol y coridor, a'r llall ger Fferm Nant Meifod yn rhan ganolog y llwybr. Ac eithrio anomaleddau ffos gylch achlysurol a nodwyd yn hanner ddwyreiniol llwybr y ceblau, mae'r anomaleddau eraill a nodwyd yn cynnwys cyfres reolaidd o nodweddion llinol a chromliniol sy'n debygol o berthyn i gyfundrefnau amaethyddol blaenorol. Mae nifer cyfyngedig o ffosydd archaeolegol wedi'u cloddio hyd yn hyn (75 o'r 284 o ffosydd a gafodd eu cynnig ar gyfer y gwaith gwerthuso arfaethedig). Mae'r gwerthusiad cyfyngedig hwn i'w briodoli i broblemau mynediad i'r gwaith.

Gall y ddau glostir tybiedig fod o bwysigrwydd Cenedlaethol, ond bydd angen gwaith gwerthuso archaeolegol i gadarnhau hyn: Fodd bynnag, dylai fod yn bosibl sicrhau nad yw llwybr cysylltiad y ceblau yn cael unrhyw effaith uniongyrchol arnynt. Ni chredir bod yr anomaleddau eraill a nodwyd gan yr arolwg geoffisegol yn safleoedd archaeolegol a fydd o bwysigrwydd Cenedlaethol.

Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn cynnig y bydd y gwerthusiad archaeolegol yn cael ei gwblhau, ac unwaith y bydd y gwaith hwnnw wedi'i gwblhau (gobeithio cyn penderfynu ar y cais) cytunir ar raglen ar gyfer gwaith archaeolegol ar ôl cael cydsyniad. Bydd y rhaglen hon yn nodi ardaloedd lle bydd angen ymchwiliad archaeolegol manwl i liniaru effaith uniongyrchol ar safle archaeolegol, a bydd yn

cynnwys methodolegau manwl sy'n bodloni'r safonau a'r canllawiau presennol a osodwyd gan y Sefydliad Siartredig ar gyfer Archaeolegwyr ac yn cynnwys manylion y dadansoddiad ôl-gloddio, yn cyhoeddi'r adroddiad sy'n deillio o hynny ac yn archifo'r cofnodion mewn storfa briodol.

Mae'r lefel bresennol o wybodaeth yn y Datganiad Amgylcheddol yn ddigonol i sicrhau bod modd ystyried effaith y datblygiad arfaethedig ar y safleoedd archaeolegol nas dynodwyd yn briodol wrth benderfynu ar y cais presennol a sicrhau bod y mesurau lliniaru arfaethedig yn briodol.

Ar y Môr

Mae'r Datganiad Amgylcheddol wedi ystyried effaith y datblygiad arfaethedig ar leoliadau henebion cofrestredig AN038 Bryngaer Dinas Gynfor; AN024 Bryngaer Din Sylwy; ac AN064 Tŵr a gweddillion anheddiad eglwysig a mynachaidd ar Ynys Seiriol. Mae wedi dod i'r casgliad y bydd effeithiau bach iawn, ond nid effeithiau sylweddol, ar leoliad yr henebion cofrestredig hyn. Rwy'n cytuno â'r casgliad hwn.

Mae'r asesiad o'r Archaeoleg Forol wedi'i gynnal, hyd yn hyn, yn dilyn arolygon priodol. Mae asesiad o arolygon geoffisegol a data hydrograffig wedi nodi 30 o anomaleddau y credir eu bod yn cynrychioli safleoedd archaeolegol, a bydd y safleoedd hyn yn cael eu gwarchod gan Ardaloedd Archaeolegol dan Waharddiad o'u cwmpas. Bydd hyn yn atal unrhyw effaith uniongyrchol arnynt yn ystod y prosiect.

Hefyd, mae'r asesiad wedi ystyried effaith y datblygiad arfaethedig ar nodweddion archaeolegol anhysbys ac yn credu mai bach iawn fydd yr effaith andwyol arnynt. Fodd bynnag, bydd Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig ar y Môr a Phrotocol ar gyfer Darganfyddiadau Archaeolegol yn cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod unrhyw safleoedd neu nodweddion archaeolegol sy'n cael eu datgelu yn ystod y rhaglen adeiladu yn cael eu hymchwilio a'u cofnodi'n briodol. Mae'n ymddangos bod y mesurau hyn yn briodol ond dylai'r awdurdod sy'n gwneud y penderfyniad ymgynghori ag Ymchwilydd Morwrol Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru i gael cyngor penodol ar effaith y datblygiad arfaethedig ar archaeoleg forol.

**Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig**

Ar y tir

Bydd y datblygiad arfaethedig yn cael effaith uniongyrchol ar barc a gerddi hanesyddol gradd II* Castell Gwrych sydd wedi'u cofrestru'n statudol gan y bydd llwybr y ceblau yn eu croesi. Mae mesurau lliniaru eisoes wedi'u cynnwys yng nghynllun llwybr y ceblau er mwyn lleihau'r effaith hon trwy drilio cyfeiriadol llorweddol o dan wal y parc (adeilad rhestredig 199044) a hefyd o dan leiniau coed, lle nad oes modd cynllunio llwybr y ffos o'u cwmpas. O'r herwydd, bydd gwaith torri ffosydd agored, a fydd yn cael effaith uniongyrchol ar y parc a'r gerddi hanesyddol cofrestredig, yn cael ei gyfyngu i'r parcdir agored, ac ni fydd y ffosydd yn weladwy unwaith y bydd y gwaith adfer wedi'i gwblhau.

Bydd darn bach o wal y parc yn cael ei dynnu yn barhaol er mwyn ehangu mynedfa bresennol (trafodir yr effaith uniongyrchol hon isod yn yr adran adeiladau rhestredig):

Fodd bynnag, ni fydd y newid hwn na llwybr y ceblau ar draws y parc a'r gerddi hanesyddol cofrestredig yn effeithio ar sut y cânt eu deall, eu profi a'u gwerthfawrogi. Felly, er y nodir bod y Datganiad Amgylcheddol wedi penderfynu y bydd cyfnod adeiladu'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol gymharol sylweddol ar barc a gerddi hanesyddol cofrestredig Castell Gwrych, unwaith y bydd y cyfnod adeiladu wedi'i gwblhau, bydd yr effaith hon yn lleihau i fod yn effaith isel neu ddibwys ac ni fydd yn arwyddocaol.

Hefyd, mae'r Datganiad Amgylcheddol yn ystyried effaith y datblygiad arfaethedig ar leoliadau parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig Parc Cinmel a Chastell Bodelwyddan. Unwaith y bydd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau, mae'r Datganiad Amgylcheddol yn dod i'r casgliad na fydd unrhyw effaith ar barc a gerddi hanesyddol cofrestredig Castell Parc Cinmel ac y bydd effaith andwyol fach ond nid sylweddol ar barc a gerddi hanesyddol cofrestredig Castell Bodelwyddan. Yn ôl y datganiad, bydd y gwaith tirlunio a phlannu coed arfaethedig yn golygu na fydd unrhyw newid. Rwy'n cytuno â'r casgliad hwn.

<u>Ar y Môr</u>

Mae'r Datganiad Amgylcheddol wedi ystyried effaith y datblygiad arfaethedig ar leoliadau Plas Condover; Castell Gwrych; Wern Isaf (Rosebriars); Parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig y Fach. Mae wedi dod i'r casgliad, ar y gwaethaf, y bydd effeithiau bach iawn ond nid sylweddol ar y parciau a'r gerddi hanesyddol cofrestredig hyn. Hefyd, mae wedi dod i'r casgliad y bydd effaith andwyol ddibwys ar barc a gerddi hanesyddol cofrestredig Flagstaff ac na fydd unrhyw effaith ar barc a gerddi hanesyddol cofrestredig Castell Penrhyn. Rwy'n cytuno â'r casgliadau hyn.

**Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig**

<u>Ar y tir</u>

Mae'r datblygiad arfaethedig wedi'i leoli tua 550m o ffin tirwedd Dyffryn Elwy Isaf sydd o ddiddordeb hanesyddol arbennig. Mae'r Datganiad Amgylcheddol wedi dod i'r casgliad y gallai presenoldeb strwythurau tal, fel craeniau sy'n adeiladu'r is-orsaf ar y tir yn ystod cyfnod adeiladu'r datblygiad arfaethedig, ynghyd â phresenoldeb hirdymor strwythurau modern ychwanegol sy'n edrych dros y dirwedd hanesyddol, gael effaith fach, ond nid sylweddol, ar leoliad y dirwedd hanesyddol gofrestredig: Fodd bynnag, bydd gwaith tirlunio a phlannu coed arfaethedig yn lleihau'r effaith andwyol hon fel na fydd unrhyw newid o fewn 15 mlynedd. Rwy'n cytuno â'r casgliad hwn.

<u>Ar y Môr</u>

Mae'r Datganiad Amgylcheddol wedi ystyried effaith y datblygiad arfaethedig ar leoliadau cofrestredig Amlwch a Mynydd Parys; Penmon; Dyffryn Ogwen; Gogledd Arllechwedd; Dyffryn Conwy Isaf; a thirweddau hanesyddol Creuddyn a Chonwy. Mae wedi dod i'r casgliad, ar y gwaethaf, y bydd effeithiau bach iawn ond nid sylweddol ar y tirweddau hanesyddol cofrestredig hyn. Rwy'n cytuno â'r casgliad hwn.

**Adeiladau Rhestredig**

Bydd llwybr y ceblau arfaethedig yn cael ei ddrilio'n llorweddol o dan adeilad rhestredig 199044 Wal Derfyn Ystâd Gwrych, o Dan-yr-Ogof i Borthdy Gwrych, ac felly ni fydd hyn yn cael unrhyw effaith arno: Fodd bynnag, bydd mynedfa bresennol drwy'r wal derfyn yn cael ei hehangu at ddefnydd traffig sy'n ymwneud â'r gwaith adeiladu. Nid yw'r wal derfyn wrth y fynedfa hon yn un wreiddiol, a chafodd ei halinio o'r newydd rywbryd ar ôl 1950 pan sefydlwyd y fynedfa bresennol. Mae'r Datganiad Amgylcheddol o'r farn bod y wal derfyn o bwysigrwydd rhanbarthol gan ei bod yn adeilad rhestredig gradd II, ac felly mae'n dod i'r casgliad y bydd colli darn bach o'r wal yn cael effaith andwyol fach iawn ond nid effaith sylweddol: Fodd bynnag, dylid nodi nad yw Deddf Adeiladau Rhestredig ac Adeiladau Cadwraeth 1990 yn darparu graddfeydd ar gyfer adeiladau rhestredig (mae is-ddeddfwriaeth yn gwneud hyn) ac felly dylai'r awdurdod sy'n gwneud y penderfyniad fod yn ymwybodol o'r ddyletswydd gyffredinol yn ymwneud ag adeiladau rhestredig *wrth arfer swyddogaethau cynllunio,* a nodir yn adran 66 (1) o'r Ddeddf hon wrth ystyried yr effaith hon.

Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn credu y bydd effaith yr is-orsaf arfaethedig ar leoliad adeilad rhestredig 19929 Pentre Meredydd yn gymharol andwyol, ac felly'n sylweddol o safbwynt asesiad o'r effaith amgylcheddol. Mae mesurau lliniaru arfaethedig gan gynnwys gwaith tirlunio a phlannu coed yn debygol o leihau'r effaith hon i fod yn effaith andwyol fach iawn nad yw'n cael effaith sylweddol o safbwynt asesiad o'r effaith amgylcheddol o fewn 15 mlynedd, ond dylai'r awdurdod sy'n gwneud y penderfyniad fod yn ymwybodol o'r ddyletswydd gyffredinol mewn perthynas ag *adeiladau rhestredig* wrth arfer swyddogaethau cynllunio a nodir yn adran 66 (1) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig ac Adeiladau Cadwraeth 1990 wrth ystyried yr effaith hon.

Mae'r Datganiad Amgylcheddol wedi ystyried effaith y datblygiad arfaethedig ar leoliadau adeiladau rhestredig eraill, gan ddod i'r casgliad na fydd unrhyw effaith ar leoliadau'r rhan fwyaf o'r asedau hanesyddol dynodedig hyn: Fodd bynnag, yn ystod cyfnod adeiladu'r datblygiad arfaethedig, mae wedi dod i'r casgliad y bydd effeithiau bach iawn ond nid sylweddol ar leoliadau'r adeiladau rhestredig canlynol:-

275 - Ysgubor, Rhes Amaethyddol a waliau a thyrau gardd cysylltiedig yn Fferm Hen Wrych
231 - Castell Gwrych gan gynnwys waliau a thyrau cysylltiedig, a'r Stablau;
232 - Porthdy Tan-yr-Ogof gan gynnwys waliau a thyrau cyfagos i'r de, y dwyrain a'r gorllewin
80738 - Porthdy Bryn Celyn ar y Ffin â Pharc Bodelwyddan
19038 - Hen Wrych
19039 - Porthdy Hen Wrych gan gynnwys waliau terfyn a thyrau cyfagos
19040 - Plas Tan-yr-Ogof gan gynnwys waliau a bwâu cyfagos i'r dwyrain a'r gorllewin
19041 - Ffermdy Tan-yr-Ogof gan gynnwys bwa a waliau cyfagos i'r dwyrain
19042 - Stabl a Chartws yn Fferm Tan-yr-Ogof

ac effeithiau dibwys ar yr adeiladau rhestredig canlynol:-

1442 - Southcroft gan gynnwys North Cottage
1443 - Staverton

1444 - Cyn Gerbyty, Stablau a Thai Allan yn Staverton a Southcroft
19036 Tŵr y Foneddiges Eleanor
19924 - Eglwys y Santes Fair

Bydd mesurau lliniaru gan gynnwys gwaith tirlunio a phlannu coed yn lleihau'r effeithiau hyn nes eu bod yn ddibwys ac na fydd unrhyw newid o fewn 15 mlynedd. Rwy'n cytuno â'r casgliad hwn.

Ar y Môr

Mae'r Datganiad Amgylcheddol wedi ystyried effaith y datblygiad arfaethedig ar leoliadau adeiladau rhestredig eraill, gan ddod i'r casgliad na fydd unrhyw effaith ar leoliadau'r rhan fwyaf o'r asedau hanesyddol dynodedig hyn: Fodd bynnag, mae wedi dod i'r casgliad y bydd effeithiau bach iawn ond nid sylweddol ar leoliadau'r adeiladau rhestredig canlynol:-

231 Castell Gwrych gan gynnwys waliau a thyrau cysylltiedig, a'r stablau
3475 Cofeb ryfel, promenâd Llandudno
3525 Y Tyrau, Llanfairfechan
3567 Wern Isaf (Rosebriars)
3641 Pier Llandudno
5366 Goleudy Trwyn y Balog a gorsaf telegraff
5367 The Olde Telegraph
5515 Bwthyn y Peilot (gynt) Rhif 1, Trwyn-Du
5528 Gweddillion anheddiad mynachaidd gan gynnwys tŵr a waliau ar Ynys Seiriol
5529 Gorsaf Telegraff (gynt), Ynys Seiriol
5797 Eglwys Sant Tudno, y Gogarth
5814 Goleudy Pen y Gogarth
17095 Plas Condover (Villa Marina gynt)
18028 Goleudy Ynysoedd y Moelrhoniaid gydag adeiladau a waliau terfyn cysylltiedig
21615 Trwyn-Du, Goleudy
24434 Ffagl peilot Trwyn y Gader (de)
24435 Ffagl peilot Trwyn y Gader (gogledd)
24436 Ffagl peilot ar Faen y Bugail
26757 Bwthyn y Peilot (gynt) Rhif 2, Trwyn-Du
Gwestai Glan y Môr, Llandudno

Rwy'n cytuno â'r casgliad hwn.

**Safle Treftadaeth y Byd**

Ar y Môr

Bydd modd gweld y fferm wynt arfaethedig, ar adegau, o rannau o Chwarel Lechi'r Penrhyn a Bethesda, ac o ddarn Dyffryn Ogwen i Borth Penrhyn o Safle Treftadaeth y Byd Gogledd-orllewin Cymru: Fodd bynnag, pan fydd yn weladwy, bydd strwythurau fferm wynt eraill yn weladwy hefyd. Felly, mae'r Datganiad Amgylcheddol yn dod i'r casgliad na fydd unrhyw effaith ar Werth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd. Rwy'n cytuno â'r casgliad hwn.

**Polisi a Chanllawiau yr Amgylchedd Hanesyddol**
Mae Cyfrol 7 atodiad 5.2 Polisi a Chanllawiau yr Amgylchedd Hanesyddol y Datganiad Amgylcheddol yn darparu gwybodaeth am y ddeddfwriaeth a'r dogfennau eraill sy'n berthnasol wrth benderfynu ar effaith y datblygiad arfaethedig ar yr amgylchedd hanesyddol. Mae'n nodi bod Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 wedi cael Cydsyniad Brenhinol sy'n nodi na fydd yn dod i rym tan ddiwedd 2024. Fodd bynnag, rhagwelir ar hyn o bryd y bydd y ddeddf hon yn dod i rym cyn penderfynu ar y cais presennol. Mae'r Ddeddf yn Ddeddf Cydgrynhoi ac ni ddylai newid deddfwriaeth, ond bydd angen newid cyfeiriadau at y rhannau gwahanol o'r Deddfau sydd wedi'u cydgrynhoi er mwyn cyfeirio at Ddeddf 2023. Y newid pwysicaf yw y bydd adran 66 (1) o Ddeddf Adeiladau Rhestredig ac Adeiladau Cadwraeth 1990 yn dod yn adran 314A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Mae Adran 1.6 o'r ddogfen hon yn cyfeirio at Bolisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11 Chwefror 2021): Fodd bynnag, mae'r ddogfen hon wedi cael ei disodli gan Bolisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12 Chwefror 2024), er bod rhifau paragraffau a chyfeirnod polisïau yn yr adran hon o'r ddogfen yn aros yr un fath.

Mae Adran 1.7 o'r ddogfen hon yn cyfeirio at Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr amgylchedd hanesyddol (2017) (TAN24). Bydd y ddogfen hon yn cael ei hailgyhoeddi pan fydd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 yn dod i rym: Fodd bynnag, bydd y newidiadau yn gyfeiriadau at y Ddeddf newydd ac ni fydd unrhyw ganllawiau newydd yn cael eu darparu.

Mae adrannau 1.7.10 i 1.7.26 yn cyfeirio at ganllawiau ymarfer gorau amrywiol sydd wedi’u cynhyrchu gan Cadw ar ran Llywodraeth Cymru, fel TAN24. Bydd y dogfennau hyn yn cael eu hailgyhoeddi pan ddaw Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 i rym: Fodd bynnag, bydd y newidiadau yn gyfeiriadau at y Ddeddf newydd ac ni fydd unrhyw ganllawiau newydd yn cael eu darparu.